# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad: Hybrid – Microsoft Teams/Ystafell Gynadledda B ac A

Amser: 16.30 - 17.30 / 9.00 – 15.00

Dyddiad: Dydd Mercher 13 a dydd Iau 14 Mawrth 2024

# IRB(02-24)

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd: | Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)<br>Syr David Hanson<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts<br>Hugh Widdis |
| Ysgrifenyddiaeth: | Daniel Hurford, Clerc<br>Huw Gapper, Ail Glerc<br>Martha Da Gama Howells, Ail Glerc<br>Natasha Davies, Uwch-ymchwilydd<br>Beth Hales, Dirprwy Glerc<br>Ruth Hatton, Dirprwy Glerc<br>Megan Jones, Swyddog Cymorth i'r Bwrdd |
| Swyddogion yn bresennol: | Anna Daniel, Uwch-gynghorydd i'r Bwrdd Taliadau, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol<br>Kate Rabaiotti, Cynghorydd Cyfreithiol i'r Bwrdd<br>Craig Griffiths, Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau |

## 1 Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad 2024-25 - Llythyr y Penderfyniad Terfynol a'r Penderfyniad fel y'i diwygiwyd (16.30 - 17.00)

- Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Ymunodd Mike Redhouse a David Hanson yn rhithwir.

- Bu’r Bwrdd yn ystyried y cyfarfodydd cynharach a gynhaliwyd gyda'r Grwpiau Cynrychioliadol, sesiynau galw heibio i’r Aelodau a chyfarfodydd gyda'r Prif Weithredwr.

**Penderfyniad:**

- Cytunodd y Bwrdd ar y Penderfyniad diwygiedig ar gyfer 2023-24 a’r llythyr penderfyniad cysylltiedig, yn amodol ar rai diwygiadau fel y nodwyd yn y cyfarfod.

- Cytunodd y Bwrdd hefyd i gyhoeddi fersiwn o'r Penderfyniad â newidiadau wedi’u tracio a chynnwys atodiad yn y llythyr penderfyniad yn nodi cyfanswm cyfraddau costau busnes a chyllidebau staffio'r Aelodau.

- Nododd y Bwrdd yr amserlen ar gyfer cyhoeddi a chytunodd i anfon y llythyr penderfyniad at bawb a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad.

**Cam i’w gymryd:**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu i osod a chyhoeddi y Penderfyniad a’r llythyr penderfyniad cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

## 2 Cyflwyniad y Cadeirydd (9.00 - 9.05)

**Penderfyniad:**

- Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror.

**Cam i’w gymryd:**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror.

## 3 Adolygiad Thematig a Chynllunio Penderfyniad Drafft (9.05 - 10.45)

- Trafododd y Bwrdd y themâu sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'i bum adolygiad thematig a thrafododd y camau nesaf ar gyfer cyflawni'r Penderfyniad ar gyfer Seithfed Senedd. Roedd y themâu yn cynnwys:

  - y cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a rhagnodi yn y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd, gan sicrhau digon o ddisgresiwn a hyblygrwydd i Aelodau a darparu fframwaith cymesur o atebolrwydd a thryloywder;

  - y cydbwysedd o ran cefnogaeth unigol ac ar y cyd i Aelodau yn y Senedd nesaf;

  - y cydbwysedd a'r berthynas rhwng adnoddau a chymorth a ddarperir i'r Aelodau drwy'r Penderfyniad a chan Gomisiwn y Senedd.

- Bu'r Bwrdd hefyd yn adolygu amserlennu cyn y bwriedir cyhoeddi Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn haf 2025, gan nodi sawl her a chyfyngiad, gan gynnwys diwygio'r Senedd ac amserlen cyllideb y Comisiwn.

**Penderfyniad:**

- Cytunodd y Bwrdd ar yr amserlen ar gyfer cyhoeddi ei Benderfyniad terfynol, gan nodi y dylid ei adolygu'n rheolaidd, ac fe wnaeth ailddatgan amcanion yr adolygiad thematig.

## 4 Adroddiad Adolygiad Thematig Cyflog a Graddio Staff (11.00 - 12.30)

- Nododd y Bwrdd y cyflwyniad cryno a ddarparwyd gan Beamans, a derbyniodd ac thrafododd yr adroddiad drafft ar gyfer Cam 1 yr adolygiad thematig Cyflog a Graddio Staff.

**Cam i'w gymryd:**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i ddarparu unrhyw sylwadau ar yr adroddiad drafft i Beamans.

- Cytunodd y Bwrdd i drafod yr adroddiad terfynol, ei ymateb a'r opsiynau ar gyfer Cam 2 yr adolygiad thematig yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.

## 5 Adolygiad Thematig Cyflog Aelodau (Ffrwd Waith Un: Cyflog yr Aelodau) (13.15 - 14.15)

- Nododd y Cadeirydd fod ymateb y Prif Weithredwr i'r ymgynghoriad wedi gofyn am gyfeirio'n benodol at y Comisiwn yn y cylch gorchwyl. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r newid hwn yn cael ei wneud a chytunwyd ar y cylch gorchwyl terfynol.

- Trafododd y Bwrdd waith ymchwil cymharol ryngwladol yn ymwneud â chyflog Aelodau etholedig.

- Trafododd y Bwrdd fanyleb amlinellol ar gyfer yr adolygiad thematig Cyflog yr Aelodau.

- Nododd y Bwrdd yr ystyriaethau cydraddoldeb ar gyfer yr adolygiad thematig hwn.

**Penderfyniad:**

- Cytunodd y Bwrdd ar y cylch gorchwyl terfynol ar gyfer yr adolygiad thematig.

- Cytunodd y Bwrdd i fwrw ymlaen â chaffael adolygiad o gyflog yr Aelodau i'w gynnal yn allanol, gyda'r fanyleb a'r broses derfynol yn cael eu goruchwylio gan y Cadeirydd gyda chefnogaeth yr Ysgrifenyddiaeth.

## 6 Adolygiad Thematig - Diewddariad Ffyrdd o weithio (14.15 - 14.45)

- Nododd y Bwrdd y diweddariad ar yr adolygiad thematig ynghylch Ffyrdd o Weithio.

- Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd y ddeialog arfaethedig rhwng y Comisiwn a'r Bwrdd mewn perthynas â'r adolygiad thematig hwn.

**Penderfyniad**

- Cytunodd y Bwrdd ar y materion allweddol i'w harchwilio fel cam nesaf yr adolygiad thematig.

## 7 Papur diweddaru (14.45 - 15.00)

- Nododd y Bwrdd y diweddariadau ar amrywiol faterion sy'n berthnasol i'w waith a'i flaenraglen waith.

- Nododd y Bwrdd yr ohebiaeth a ddaeth i law ac a anfonwyd ers y cyfarfod diwethaf.

- Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gyfarfodydd diweddar a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid.